PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 5 RHAGFYR 2023

Present: Councillor Bridgeman (Chairperson)
Councillors Ahmed, Hopkins, Melbourne a/ac Simmons

Bridgid Corr (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr), a/ac Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig)

Emily Gao (Cynrychhioldd y Cyngon Ieuenctid)

## 35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Feguson-Thorne, Jess Moultrie, Calum Davies a Claudia Boes, Carol Cobert a Celeste Lewis

## 36 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

## 37 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 38 : ADRODDIADAU PERFFORMIAD CHWARTER 2 GWASANAETHAU PLANT 2023/24

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem hon yn eu galluogi i adolygu Perfformiad Chwarter 2 y Gwasanaethau Plant.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ash Lister (yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Plant)) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant).

Gwahoddwyd y Cynghorydd Lister i wneud datganiad lle tynnodd sylw at feysydd her a gwelliant. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod heriau o hyd ynghylch asesiadau lles, asesiadau Adran 47 a grwpiau craidd yn cael eu cynnull ar amser. Sicrhaodd yr Aelodau fod sgyrsiau yn parhau o ran rheoli perfformiad o lefel rheoli llinell weithredol i weithwyr cymdeithasol rheng flaen ac adolygu'r ffordd yr oedd y gwasanaeth yn cefnogi gweithwyr cymdeithasol i gyflawni eu rôl o ran grwpiau craidd. Pwysleisiodd faint o gyfrifoldeb a oedd yn cael ei roi ar weithwyr cymdeithasol yn unig, gan gynnwys trefniadau busnes fel cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd a phrosesu cyfarfodydd. Roedd y ffocws nawr ar wella perfformiad a datblygu strategaeth y gweithlu.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y gwasanaeth mewn sefyllfa fwy sefydlog o ran y gweithlu a bod y ffocws ar wella perfformiad ar gyfer rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Roedd targedau a disgwyliadau cliriach bellach ar waith ar

gyfer timau a gweithwyr unigol a rhagwelwyd y byddai gwelliannau parhaus yn digwydd.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae’r drafodaeth wedi’i chrynhoi fel a ganlyn:

- Nododd yr Aelodau fod swm yr achosion gofal gan berthnasau wedi cynyddu'n sylweddol a gofynnon nhw am eglurhad ar sut y gwnaed y penderfyniad ynghylch a oedd plentyn yn cael ei leoli gyda'i deulu neu ei faethu. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod prosesau cadarn wedi'u rhoi ar waith ar gyfer asesu teuluoedd a ffrindiau a sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer nodi pwy oedd plant yn byw gyda nhw naill ai trwy rwydweithio teuluol neu drwy gynadledda teuluol. Y nod oedd, yn dilyn canlyniad asesiadau rhianta, pe na bai plentyn yn cael ei ystyried yn ddiogel gyda'i rieni, byddai gan yr Awdurdod fanylion am y perthnasau eisoes. Roedd proses fwy cadarn wedi'i sefydlu ar gyfer gofal gan berthnasau a maethu. Roedd gofal gan berthnasau wedi symud ochr yn ochr â maethu i sicrhau bod yr un mynediad ar gael at gymorth ariannol a chymorth 24-7.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y manylion yn yr adroddiad ar y camau a gymerwyd i wella swm y llety a oedd ar gael a gofynnon nhw a oedd cysylltiad rhwng yr heriau yn y maes hwnnw a pholisi Llywodraeth Cymru’n ymwneud â dileu elw o ofal ac a oedd unrhyw gyfraniad ariannol at gostau cyfalaf prynu eiddo neu a gafwyd yr arian yn gyfan gwbl o gyllideb y Gwasanaethau Plant. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod cyfraniad gan Lywodraeth Cymru. Roedd cysylltiad i'r agenda Dileu Elw a gododd o adolygiad manwl a gynhaliwyd gan graffu i gael cynllun ar waith i adeiladu mwy o gartrefi plant i gael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol ac i'w gosod yng Nghaerdydd. Y nod oedd cael cartrefi o ansawdd da i blant yn yr ardal leol ynghyd â chysylltiadau o ansawdd da gyda chydweithwyr Addysg ac Iechyd. Cydnabuwyd yr angen i adeiladu arbenigedd o ran mwy o sgiliau masnachol a chydgysylltu â'r darparwyr dielw bach ynghyd â'r angen am fwy o gyllid cyfalaf a mwy o fynediad at gyllid refeniw. Roedd angen dechrau cwmpasu i weld faint fyddai'r cynllun yn ei gostio pe bai'r plant i gyd yn ôl yn byw yng nghartrefi plant yr awdurdod lleol ac asesu beth fyddai'r bwlch cyllid.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y pwysau parhaus sy'n wynebu'r gwasanaeth a gofynnon nhw a ellid rhoi rhywfaint o fewnwelediad ar y ffordd ymlaen – p'un a oedd yn fater o gapasiti (a oedd, gobeithio, wedi cael ei leddfu gyda gostyngiad yn nifer y swyddi staff parhaol gwag), math y rheoli, rhannu arfer da neu gyfuniad o'r rheiny. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud ei fod yn gyfuniad o'r holl bethau uchod. Byddai'r gostyngiad yn y gyfradd swyddi gwag a gweithlu mwy parhaol yn arwain at welliannau ond roedd gwella gwaith rheoli perfformiad yn hanfodol i sicrhau bod targedau'n cael eu bwrw a bod plant yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Roedd yr holl swyddi rheoli yn y Gwasanaethau Plant bellach wedi'u llenwi gan staff parhaol a wnaeth wahaniaeth o ran gallu rheoli risg gan gefnogi staff a gweithio'n agosach gyda theuluoedd. Roedd cyfleoedd ar gael i weithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol ddatblygu a rhannu arfer gorau a chynhaliwyd materion ymarfer trwy gydol y flwyddyn. Sefydlwyd Academi a Thîm Arweinwyr Ymarfer ac yn ychwanegol at eu trefniadau rheoli llinell roedd

nifer o staff yn gallu cynnal ymweliadau ar y cyd. Roedd pwyslais hefyd ar weithio mewn partneriaeth a deall yr hyn y gallai partneriaid eraill ei gyfrannu a'u dwyn i gyfrif o ran eu dyletswyddau a'u pwerau. Nodwyd hefyd, er bod galw parhaus wrth ddrws ffrynt y Gwasanaethau Plant, fod cynnydd yn y gallu i reoli'r galw. Er bod niferoedd cynyddol o blant yn derbyn gofal, dim ond gan 9 dros y tair blynedd ddiwethaf yr oedd nifer gwirioneddol y plant mewn lleoliadau a reoleiddir wedi cynyddu. Roedd y rhan fwyaf o blant yn derbyn gofal gan eu rhieni neu eu teuluoedd, ond roedd y cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu gan yr Awdurdod gan olygu y gallai swyddogion ymyrryd a gwneud penderfyniadau.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod yr adroddiad yn dweud bod 23 o bobl wedi gadael gofal heb ymgynghorydd personol a gofynnon nhw sut roedd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â hynny. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gan bobl ifanc fynediad uniongyrchol at bob llwybr erbyn hyn. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod y Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol wedi symud i'r Gwasanaethau Oedolion gan ei fod yn cyd-fynd yn well â'r Gwasanaeth i Mewn i Waith. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gan bobl ifanc fynediad uniongyrchol at bob llwybr erbyn hyn. Roedd y swyddogion yn ymwybodol bod rhai materion wedi bod o ran dyrannu ymgynghorwyr personol ond roedd hyn yn cael sylw ac roedd hyder y byddai'r ffigwr yn gwella.

- Nododd yr Aelodau y gyfran o bobl a oedd wedi gadael gofal nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn yr ail flwyddyn ar ôl gadael gofal a gofynnon nhw i'r swyddogion sut y gellid gwneud mwy i'w cefnogi wrth iddynt symud i'r byd oedolion. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod hyn wedi dod yn flaenoriaeth ar yr agenda Rhianta Corfforaethol a'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc. Roedd y swyddogion yn edrych ar yr hyn a oedd ar gael ar draws y Cyngor ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a phwy a oedd yn darparu'r gwasanaethau hynny ac os na, pam lai? Y gobaith oedd deall y ffigurau er mwyn bodloni anghenion y person ifanc unigol, beth oedd ei ddyheadau a sut y gallai'r gwasanaeth fodloni'r anghenion hynny.

- Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod gwelliant wedi bod wrth gwblhau Asesiadau Lles ac Adran 47, ac am y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cyfeiriodd y swyddogion at ffactorau fel cael tîm rheoli sefydlog ar waith, arweinwyr ymarfer a'r academi ar waith i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i reoli risg, adolygu hybiau a diogelu cadeiryddion a oedd yn adolygu achosion yn rheolaidd.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y tabl salwch staff ar dudalen 12 yr adroddiad a gofynnon nhw a oedd rheswm dros y ffaith ei fod mor uchel ac am y strategaeth i'w wella. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod y lefelau salwch wedi bod yn gwella ac o ganlyniad roedd diwrnodau targed perfformiad salwch wedi cael eu lleihau. Ers i'r targed gael ei ostwng roedd lefelau salwch ychydig drosto. Erbyn hyn roedd mwy o hybiau plant ar waith felly disgwylid y byddai lefelau salwch yn cynyddu. Nodwyd bod straen yn ffactor mewn gwaith cymdeithasol ac felly roedd cryn dipyn o waith yn cael ei wneud o ran lles a chymorth. Yn ogystal, roedd llwythi achosion yn cael eu rheoli i sicrhau nad oeddent yn rhy uchel i weithwyr cymdeithasol unigol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi ei sylwadau a'i arsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 39 : DIWEDDARIAD AR ADFERIAD ADDYSG / YSGOLION AR ÔL Y PANDEMIG

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem hon yn eu galluogi i ystyried cynnwys cyflwyniad ar Adferiad Addysg ac Ysgolion ar ôl y Pandemig. Nodwyd yr Aelodau mai ffocws y sesiwn oedd cael y wybodaeth ddiweddaraf ar y mater hwn. Byddai archwiliad dwfn pellach yn cael ei gynnal yng nghyfarfod mis Mawrth 2024.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Phil Norton (Arweinydd Cyflawni Cymorth Targedig Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Jennie Hughes (Pennaeth Cynhwysiant).

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad agoriadol lle

tynnodd sylw at bwyntiau bwled allweddol y cyflwyniad, gan gynnwys y ffaith mai Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yn y DU i gael ei chydnabod fel dinas sy'n dda i blant, y cynnydd mewn Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r trosglwyddiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pwysleisiodd nad oedd yr un o'r materion a oedd wynebu adferiad Addysg/Ysgolion ar ôl y pandemig yn unigryw i Gaerdydd na Chymru ond eu bod yn faterion yn y DU. Nododd pan oedd y penaethiaid wedi mynychu'r Pwyllgor fod y materion wedi bod yn ymwneud â'r ffaith bod ffigyrau presenoldeb yn codi eto, ond eu bod yn dal yn is na chyn COVID, a rhai materion ymddygiad gyda'r twf mewn ADY.

Yna rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau a oedd yn rhoi trosolwg a datganiad sefyllfa o'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan addysg ac ysgolion. Y gobaith oedd y byddai'r sleidiau yn dangos y gwaith a'r cynnydd sylweddol a oedd yn cael ei wneud gan wasanaethau addysg ac ysgolion. Er y nodwyd hefyd bod heriau a phwysau o'n blaenau.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Cynnydd - Parhau i gyflawni Gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer Addysg a Dysgu (Canlyniadau Addysgol, Diwygiadau Cenedlaethol),
- Cynnydd - Cefnogi Adferiad Addysg ar ôl y Pandemig (Cydnabod Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant, ymgysylltu Addewid Caerdydd, Adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid);
- Cyllid/Cyllidebau Ysgolion – Cyd-destun Presennol; (Camau Gweithredu Allweddol, Trefniadau Bwrdd Effeithlonrwydd);
- Bwrdd Adfer a Diogelu Plant a Phobl Ifanc; Cwmpas y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc;
- Cefnogi Adferiad Addysg ar ôl y Pandemig gyda ffocws ar Grwpiau Agored i Niwed (Ymgyrch Presenoldeb Lwyddiannus, Trafodaethau ynghylch newidiadau i'r ffordd y mae'r Swyddog Presenoldeb yn yr Ysgol yn gweithredu; Tîm o Amgylch yr Ysgol, Cynnydd mewn Addysg Ddewisol yn y Cartref, Cynnydd mewn Gwaharddiadau Parhaol a Gwaharddiadau Cyfnod Penodol ers y Pandemig);

- Ysgolion Bro Caerdydd;
- Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Nododd yr Aelodau yr heriau o ran y nifer cynyddol o blant yn derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) yng Nghaerdydd gan arwain at lwyth gwaith mwy ar gyfer y tîm ADdC. Yn ogystal, nid oedd gan ddysgwyr ADdC yr un lefel o gyswllt â gwasanaethau cyhoeddus â'r rhai a oedd yn mynychu'r ysgol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn argymell ymweliadau wyneb yn wyneb â'r plant hynny ond roedd dwy elusen wedi herio'r gofyniad cyfreithiol.

O ran trosglwyddiad 2022-23 o AAA i ADY nododd yr Aelodau fod 131 o leoedd ADY ychwanegol wedi'u gweithredu ar gyfer mis Medi 2023 gydag 20 o leoedd ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24 ar ôl cwblhau gwaith addasu.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau am y broses ADY ac a oedd yr amserlen i gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) o hyd tebyg i'r amserlen i gael datganiad ac yn ychwanegol a ellid rhagweld niferoedd ADY a CDU. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod gan ysgol amserlen o 35 diwrnod i weithio gyda'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig ac i ysgrifennu'r CDU. Roedd y broses ar gyfer CDUau yn gyflymach na'r broses ar gyfer datganiadau ac roedd CDUau yn digwydd yn yr ysgol gyda'r teulu'n cymryd mwy o ran yn y trafodaethau. O ran niferoedd, roedd y cynnydd yn y niferoedd mewn perthynas â'r plant â'r lefel uchaf o angen. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau ei bod yn anodd rhagweld y niferoedd gan ei fod yn waith ar y gweill a'i fod yn fwy cymhleth oherwydd y trosglwyddiad o AAA i ADY.

- Gofynnodd yr Aelodau am ganran y bobl ifanc hynny a oedd yn cael eu haddysgu gartref. Y swyddogion i anfon y wybodaeth ymlaen i'r Pwyllgor.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd gan Gaerdydd, fel awdurdod lleol, fynediad at fanc o diwtoriaid i gyfeirio rhieni pobl ifanc a oedd yn cael eu haddysgu gartref ato. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud y gallai rhieni gomisiynu tiwtoriaid neu raglenni a dysgu ar-lein ond fel awdurdod lleol nid oedd hyn yn wasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu, er bod gan yr awdurdod fynediad at grant bach.

- Gofynnodd yr Aelodau pa broses oedd ar waith ar gyfer pobl ifanc a oedd wedi cael eu haddysgu gartref ond a oedd yn dychwelyd i addysg llawn amser ac a oedd nifer y rhai a oedd yn dychwelyd yn cynyddu. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod Panel Dechrau Newydd yn ymgynnull unwaith bob pythefnos i edrych ar blant a oedd yn cael eu haddysgu gartref. Roedd cytundeb mewn grym gyda phenaethiaid Ysgolion Uwchradd y byddent yn rhoi dechrau newydd i'r disgyblion er mwyn osgoi'r disgyblion hynny rhag mynd i nifer fach o ysgolion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod nifer y rhai'n dychwelyd i addysg llawn amser yn cynyddu.

- Trafododd yr Aelodau y nifer cynyddol o deuluoedd a oedd yn newid eu meddyliau a nifer y bobl ifanc a oedd yn mynegi awydd i ddychwelyd i addysg llawn amser. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn ychwanegu at yr heriau a oedd yn wynebu addysg/ysgolion yn hytrach na'u lleihau. Gofynnwyd a oedd y trefniadau presennol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref yn addas at y diben ac a oedd y pryderon yn cael sylw gan Lywodraeth Cymru ac a oedd arwydd ei bod yn adolygu'r sefyllfa fel yr oedd ar hyn o bryd. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud mai'r rheswm dros rannu gyda'r penaethiaid oedd rhannu'r cyfrifoldeb gyda'r ysgolion fel nad oedd y bobl ifanc yn mynd yn ôl i'r un ysgolion a oedd yn wynebu heriau. O ran dadansoddiad o'r hyn a oedd yn cael ei gyflawni - er mai cyfrifoldeb statudol yn unig oedd ymweliad blynyddol ar gyfer plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref, lle teimlwyd nad oedd addysg yn cael ei chyflawni nid oedd yn rhaid i'r Awdurdod aros am flwyddyn i ailymweld. Roedd trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ac roedd hyn wedi'i godi ar lefel Grŵp Cenedlaethol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y plant a oedd yn dychwelyd i addysg llawn amser yn dychwelyd i ddarpariaeth eu hoedran ysgol ai peidio a pha ddarpariaeth a oedd ar waith i'w rhoi mewn grŵp oedran is i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial academaidd. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud y gallai rhieni ofyn am wrthbwyso cronolegol i'w plentyn gael ei roi'n ôl un flwyddyn. Roedd dadleuon o blaid ac yn erbyn hyn ond yn y pen draw mater i'r ysgol oedd penderfynu a ddigwyddodd hyn ai peidio. Roedd yn fater o edrych ar yr opsiwn gorau i'r plentyn wrth symud ymlaen.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r rhesymau pam y dewisodd rhieni addysg yn y cartref. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod y rhesymau'n cynnwys cred nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu bodloni, ffordd o fyw a rhesymau eraill fel gorbryder ac ati.

- Gofynnodd yr Aelodau sut y cafodd grwpiau rhianta eu nodi yng Nghaerdydd. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod llawer o grwpiau ar draws y ddinas. Roeddent yn grwpiau agored i rieni eu mynychu a bod yn rhan o'r drafodaeth.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am sut y cafodd y 131 o leoedd ADY ychwanegol eu lledaenu ymhlith yr ysgolion. Cytunodd y swyddogion i roi'r wybodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod traean o'r holl gyllidebau ysgolion yng Nghaerdydd mewn diffyg ac roedd llawer o ysgolion wedi defnyddio eu cronfeydd wrth gefn untro a osodwyd yn erbyn gostyngiad yn nifer y disgyblion a gofynnon nhw pa drafodaethau a oedd yn digwydd gyda phenaethiaid ar y mater. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud mai'r Fforwm Cyllideb Ysgolion fyddai'r mecanwaith ar gyfer gosod cyllidebau ysgolion ac adnoddau ysgolion a'r hyn y byddai'n ei olygu o ran nifer y staff a'r cynorthwywyr addysgu. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi ei sylwadau a'i arsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 40 : BUSNES Y PWYLLGOR

Gwahoddodd y Cadeirydd Alison Jones, (Swyddog Craffu) i fynd â'r Aelodau drwy'r adroddiad a ddiweddarodd y Pwyllgor ar ystod o faterion mewn perthynas â'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc gan gynnwys:

- Rhaglen Waith Plant a Phobl Ifanc 2023/24 wedi'i diweddaru i'w nodi. (Atodiad A)
- Copi o Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Gydweithfa Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (FCCh) i'w nodi (Atodiad B)
- Copi o adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu ar y Cyd ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) drafft i'w nodi (Atodiad C)
- Diweddariad ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion Plant a Phobl Ifanc a Grŵp Gorffen a Gorchwyl Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Diweddariad ar unrhyw fusnes neu ddiweddariadau anffurfiol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Craffu hwn i'w nodi (gan gynnwys llythyr Estyn)
- Dolenni i graffu ar faterion cysylltiedig gan bwyllgorau craffu eraill a phwyllgorau perthnasol eraill y Cyngor, sy'n ceisio rhoi mwy o wybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â gwaith y pwyllgor.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Gydweithfa Mabwysiadu yn y FCCh a chyfeiriad yn yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod yn rhaid i'r Gwasanaethau Mabwysiadu ddod o hyd i arbedion cost o 3% yn ystod 2023/24. Awgrymwyd y dylai'r Aelodau ofyn am farn ar effaith yr arbedion cost hynny yn llythyr y Pwyllgor at y Gwasanaethau Plant.

- Mewn perthynas â llythyr Estyn gofynnodd yr Aelodau a allai fod yn briodol cwrdd â nhw. Ymatebodd y swyddog Craffu gan ddweud bod hyn yn cael sylw ac roedd awgrymiadau wedi'u gwneud i gynrychiolwyr o Estyn fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth. Byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau pan fydd wedi'i chadarnhau.

## 41 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

## 42 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Nodi dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor sef dydd Mawrth 9 Ionawr 2024

Daeth y cyfarfod I ben am 7.09 pm